# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **13 o Fedi 2022** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Menna Jones** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679335** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Blynyddol - Iechyd Diogelwch a Llesiant** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Cymeradwyaeth o'r adroddiad blynyddol ar gyfer 2021/22.

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Mae cyflwyno'r adroddiad hon gerbron y Cabinet yn flynyddol yn ran o drefniadau rheoli iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor. Mae'n hanfodol fod gan aelodau'r Cabinet drosolwg llawn o sefyllfa'r Cyngor yn y maes pwysig yma.

**3. CYFLWYNIAD**


Bwriad yr adroddiad yma yw amlinellu y prif faterion a gododd yn y maes iechyd, diogelwch a llesiant yn ystod y flwyddyn dan sylw.

Am yr ail flwyddyn yn olynnol, bu i COVID a'r gofynion cyfreithiol caeth gan y Llywodraeth fod yn flaenllaw iawn o ran agenda iechyd a diogelwch pob Adran ac wedi gorfod bod yn flaenoriaeth gan y Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Lleisiant yn gorfforaethol. Cafwyd blwyddyn arall ble roedd gofyn cyfreithiol i staff a allai fod yn gweithio o gartref fod yn gwneud hynny, a llu o gyfyngiadau a gofynion ar sectorau eraill y Cyngor, megis Addysg a Gofal. Gwelwyd hefyd gyfraddau uchel o COVID yn y Sir tros y Gaeaf (yr uchaf yng Nghymru ar un pwynt) a hynny ar amser ble roedd ysgolion wedi ail agor. Felly bu 2021/22 yn flwyddyn heriol arall eto o ran cadw staff a phobl Gwynedd yn ddiogel.

**Ffigyrau damweiniau**


Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o ffigyrau digwyddiadau a damweiniau RIDDOR am y 5 mlynedd ddiwethaf. Rhain yw'r digwyddiadau mwyaf difrifol yn ymwneud a staff o fewn y Cyngor yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd anafwyd ar safle'r Cyngor a phle bu'n rhaid eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID). Y llynedd, ychwanegwyd gofyniad o fewn y rheoliadau yma i adrodd ar achosion o staff yn dal COVID yn y gwaith (ble roedd sail rhesymol i gredu hynny), a dyna yw'r rheswm am y cynnydd sylweddol yn y ffigyrau dros y ddwy flynedd diwethaf.

Adroddwyd ar 113 achos o aelodau staff wedi dal COVID yn eu gwaith yn ystod 21/22 o'i gymharu a 73 y flwyddyn blaenorol. Wrth gwrs, nid yw'n bosibl cadarnhau yr union nifer achosion yn bendant. Yn hytrach, mae'r gofyn i adrodd pan fo sail rhesymol i ddod i gasgliad y gallent fod wedi ei ddal yn y gwaith e.e. un a'i trwy aelod o staff positif yn rhoi gofal i glaf positif neu yn cydweithio gyda hefo staff arall sy'n bositif, neu blant positif mewn dosbarth ble fo athro wedyn yn datblygu'r haint. Mae'r gwahanol donnau o COVID oedd yn taro y Sir i'w gweld yn glir yn y tabl isod yn y linellau glas a melyn.




O roi ffigyrau COVID i'r neilltu, gellir adrodd bod cynnydd hefyd yn y nifer o ddigwyddiadau adroddwyd fel arall o dan RIDDOR y llynedd o'i gymharu â'r flwyddyn blaenorol. Fodd bynnag, o ystyried bod y mwyafrif o Wasanaethau wedi'u hadfer (ble roedd nifer ar gau y flwyddyn flaenorol) ni ellir dod i unrhyw gasgliadau cadarn o hynny. Nid oes unrhyw batrwm chwaith yn y rheswm am y cynnydd, ag eithrio bod patrwm cyson o ran y Cyngor hwn ac yn genedlaethol ers nifer o flynyddoedd, sef mai codi a thrin pwysau, a llithro a baglu yw'r ddau brif achos am ddamweiniau. Mae'r digwyddiadau sydd wedi eu categoreiddio fel 'arall' yn amrywio o ymosodiadau corfforol yn erbyn staff, cyflyrau iechyd sydd wedi eu hachosi gan y gwaith a damwain cerbyd.

Mae'r siart isod yn amlinellu niferoedd yr achosion RIDDOR sydd wedi eu hadrodd i AGID tros y 5 mlynedd ddiwethaf.



Dylid nodi fod gwaith dwys yn parhau yn y maes symud a thrin pwysau, ac yn benodol felly yn y meysydd gwaith ple bo cyfraddau absenoldeb yn uwch oherwydd anafiadau symud a thrin, megis o fewn y Gwasanaeth Gwastraff . Mae modiwlau e ddysgu mewnol wedi eu datblygu a'r gobaith yw gallu rhannu rhain gyda staff o bob adran i gefnogi ac atgyfnerthu gwaith yr Hyfforddwr Symud a Thrin sydd a galw uchel iawn am ei hamser ac yn gorfod blaenoriaethu ei gwaith.

**Gorfodaeth a chydymffurfiaeth**

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID) wedi cynnal sawl archwiliad ar adeiladau a safleoedd y Cyngor yn gwirio am gydymffurfiaeth gyda rheolau COVID. Mae hyn wedi cynnwys gwiriad ar nifer o ysgolion yn ogystal â'r prif swyddfeydd. Ar bob achlysur roedd yr Arolygwyr yn fodlon gyda'r trefniadau oedd mewn lle.

Bu un archwiliad arall yn ystod y flwyddyn gan AGID, a hynny yn ymweliad ag Ysgol Friars. Roedd hyn yn ran o raglen genedlaethol gan AGID i archwilio ysgolion uwchradd ar gyfer cydymffurfiaeth ar reolaeth deunyddiau ymbelydrol mewn labordai gwyddoniaeth. Nid oedd unrhyw gamau gorfodaeth yn deillio o'r ymweliad.

Yn ystod mis Awst 2021, cafwyd archwiliad cydymffurfiad risg ar draws yr Awdurdod gan Zurich fel ein yswirwyr ar gyfer Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr ac Atebolrwydd y Cyhoedd. Yn gyffredinol roedd yr adroddiad a dderbyniwyd yn galonogol iawn. Nid dderbyniwyd gorchymyn gwella ac nid oedd unrhyw fater brys oedd angen sylw. Yn hytrach, gwnaed dau argymhelliad gwella. Roedd y cyntaf yn ymwneud â chynllunio strategol ar gyfer amcanion iechyd a diogelwch sydd eisoes wedi ei adnabod fel blaenoriaeth gwella yng Nghynllun y Cyngor. Roedd yr ail argymhelliad yn ymwneud â chynnal gwiriadau iechyd ar ddarpar staff cyn eu cyflogi.

**Rhaglen waith**

Mae COVID wedi cael effaith sylweddol ar raglen waith y Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant am yr ail flwyddyn yn olynnol wrth i ganllawiau y Llywodraeth newid yn gyson yn ystod y flwyddyn a phle bod angen sefydlu trefniadau newydd dros nos bron iawn. Roedd gofyn sefydlu trefniadau gwaith ein hunain mewn rhai amgylchiadau, ac roedd ysgolion yn un enghraifft o hynny ble bu i'r Cyngor, trwy waith y Grwp Gwyliadwriaeth COVID, sefydlu hicynnau ble roedd dosbarthiadau yn symud i drefn o ddysgu rhithwir os oedd nifer penodol o achosion positif wedi eu hamlygu mewn unrhyw un dosbarth. Roedd hon yn drefn a wnaeth ddenu diddordeb Siroedd eraill a bu mewn lle hyd nes bu i gyfraddau ddisgyn yng Ngwanwyn 2022.

Oherwydd y gwaith uchod, dim ond nifer cymharol fychan o archwiliadau rhagweithiol sydd wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn a rheiny yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol er mwyn cynnal eu achrediad BSI (British Standards Institution). Mae nifer cyfyngedig o gyrsiau Iechyd a Diogelwch wedi eu cynnal yn rhithiol – yn bennaf rheoli safle yn ddiogel. Wrth sefydlu'r normal newydd, mae llawer o waith hefyd wedi bod ynghlwm a'r elfennau iechyd a diogelwch sy'n deillio o hynny,

megis asesiadau gweithfan i staff sy'n gweithio adref yn llawn amser (neu am ran o'u wythnos waith) ac i'r perwyl hwnnw mae adnodd ychwanegol wedi ei ychwanegu i'r tîm canolog am gyfnod o flwyddyn, nid yn unig i helpu gyda'r gwaith hwn, ond hefyd i helpu i ddal i fyny gyda swmp gwaith sylweddol i adfer yr holl ffrydiau gwaith yn ogystal a'r hyfforddiant oedd ar waith cyn COVID sy'n ymdrin â llu o risgiau eraill sydd wirioneddol angen sylw erbyn hyn.

Fel sydd eisoes wedi ei grybwyll yn barod, mae prosiect wedi ei gytuno arno i gynnal adolygiad llawn o drefniadau a rheolaeth Iechyd a Diogelwch ar draws y Cyngor ac mae wedi ei gynnwys yng Nghynllun y Cyngor. Er i'r briff gael ei gytuno arno y llynedd, mae'r gwaith ynghlwm ag o wedi llithro i flwyddyn 22/23 oherwydd yr amgylchiadau a amlinellir uchod.

Mae'r cyfarfodydd pythefnosol a sefydlwyd yn ystod y cyfnod clo cyntaf, rhwng y cyflogwr a'r Undebau Llafur, er mwyn trafod yr holl faterion iechyd a diogelwch oedd yn codi o'r pandemig wedi parhau yn ystod y flwyddyn ac wedi bod yn gadarnhaol a ffrwythlon iawn.

**Achrediad IOS 45001 gan BSi**

Yn ystod y flwyddyn, mae dwy Adran o'r Cyngor, sef YGC a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol wedi llwyddo i gael achrediad i safon newydd ISO 45001 ar iechyd a diogelwch. Roedd y ddwy Adran yn dal achrediad cynt, ond mae'r safon newydd yn un rhyngwladol (International Standards Organsiation) ac yn fwy cadarn ac heriol.

**Iechyd Galwedigaethol**


Mae'r tîm Iechyd Galwedigaethol wedi bod yn ganolog i gefnogi gweithlu bregus y Sir dros gyfnod y pandemig. Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda mwy na 600 aelod o staff bregus i drafod eu cyflyrau meddygol gan gynnig argymhellion ar sut orau i'w gwarchod yn y gwaith. Bu hyn yn arbennig o heriol am gyfnod yn ystod y flwyddyn, yn enwedig gyda staff mewn ysgolion ble roedd cyfraddau uchel o'r haint. Mae'r Uned wedi cadw mewn cyswllt cyson gyda'r staff hynny er mwyn cynnig cefnogaeth a cheisio cynnal eu iechyd meddwl.

Erbyn hyn, mae'r Uned wedi adfer ei waith yn llawn ac wedi ail gychwyn y rhaglen Gwyliadwriaeth Iechyd wedi i AGID atal y rhaglen yn genedlaethol dros gyfnod COVID. Rhain yw'r profion sy'n ofyniad cyfreithiol i staff eu derbyn os yr ydynt yn ymdrin a risgiau iechyd yn y gwaith e.e. profion clyw / anadl neu ddirgryniad. Yma eto felly, mae gwaith “dal i fyny” sylweddol i'w wneud a sgyrsiau wedi'u cynnal gyda Adrannau rheng flaen ynglŷn â sut orau i hwyluso hynny. Fel enghraifft, mae ymrwymiad i fuddsoddi mewn 'booth' audiometry i ardal Dwyfor fel fod profion clyw yn gallu cael eu cynnal yno. Mae hyn yn ychwanegol i'r 'booths' yn Nolgellau a Chaernarfon sydd eisoes mewn lle. Y gobaith yw y gellir cynnal y profion yn yr ardaloedd heb yr angen i dynnu staff i Gaernarfon i'w cynnal.

Mae'r gynhaliaeth llesiant i staff wedi parhau yn ystod y cyfnod ac mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld rhai o'r lefelau uchaf o gyfeiriadau at y Gwasanaeth Ffisiotherapi a'r Gwasanaeth Cwnsela gan Medra ers eu sefydlu. Mae'r ffigyrau wedi gwastadu erbyn diwedd y flwyddyn fodd bynnag. Bellach mae gwaith yn

mynd rhagddo i ail afael â gwaith rhagweithiol yn y maes iechyd meddwl yn benodol, ac mae Cynllun Cyfathrebu bellach mewn lle ar gyfer cyfathrebu rhaglen llesiant staff er mwyn ceisio sicrhau fod pob un o staff rheng flaen y Cyngor yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael. Mae'r Uned hefyd yn ran o dîm ehangach sydd wedi ei sefydlu i fynd i'r afael â lefelau salwch trwy sawl dull ymyrraeth gwahanol.

Mae'r tabl isod yn arddangos y cyfeiriadau i'r Uned dros y bedair mlynedd diwethaf a bu bron i 100 cyfeiriad yn fwy eleni na blynyddoedd blaenorol a hynny yn bendol oherwydd hanner cyntaf y flwyddyn. Mae straen yn parhau i fod y prif reswm am absenoldeb, gyda straen oherwydd y pandemig yn benodol gyfrifol am y cynnydd a fu ar ddechrau'r flwyddyn. Mae cyfeiriadau am broblemau cyhyrsgerbydol hefyd yn un o'r prif resymau ple bo angen sylw. Mae'r Uned yn gweld llawer o gyfeiriadau sydd ynghlwm ag ôl-effaith COVID, boed yn 'long covid' neu broblemau iechyd meddwl ynghlwm â'r pandemig, a rhai o rheiny yn hynod ddwys.




## 4. SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL

**Sylwadau'r Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yn esbonio fod y Cabinet a rôl o fewn ein fframwaith iechyd a diogelwch. Mae'n briodol ei fod yn derbyn y wybodaeth sydd yma er yn rhoi sicrwydd ynglŷn a'n trefniadau yn y maes pwysig yma.

**Sylwadau'r Pennaeth Cyllid:**

Mae'r adroddiad yn cyfleu gwybodaeth i'r Cabinet a nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant. Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.